Newyddion

Tudur Dylan Jones

Cynnwys

Yn y gerdd hon mae'r bardd yn sôn am eitem newyddion ar fwletin newyddion.Mae'r bardd yn defnyddio Dewi ap Gwyn i adrodd y digwyddiadau i ni yn dilyn trychineb mewn gwlad tua deuddeg awr yn ôl

Mae'r bardd yn sôn am ddaeaergryn mawr sydd wedi dinistrio (destroy) a lladd pobl a phlant .Mae'r bardd yn dweud bod arogl marwolaeth yn y lle. Yn y cwpled cyntaf mae'n disgrifio gweld a chlywed plant yn crio am y Groes Goch i ddod i'w helpu.Mae'n sefyllfa drist iawn a does neb wedi cyrraedd eto.Rydyn ni'n gweld effaith y ddaeargryn ar y bobl, mae mam ifanc sydd wedi colli gŵr, ,mae plant yn chwilio am ddŵr a babi ar ochr y stryd sydd yn mynd i farw.

Yn anffodus dim ond eitem newyddion yw hyn. Mae hwn yn rhywbeth sydd yn digwydd mewn rhan arall o'r byd. Mae'r gwyliwr yn gweld a chlywed am y newyddion yn unig. Nid yw'r daeargryn wedi digwydd i ni felly nid yw mor bwysig i ni. Mae'r newyddiadurwr yn gwneud ei waith yn unig, dydy e ddim yna i helpu dim ond i weithio.Swydd yw darlledu'r (televise) newyddion iddo. Fel y newyddiadurwr, mae'r gwylwyr yn oeraidd ac yn ddideimlad (cold and without feeling) pan fyddwn ni'n gwylio'r newyddion am drychinebau ar draws y byd

Arddull

Hyd y llinellau

Mae hyd y llinellau'n amrywio (varies) rhwng naw ac unarddeg sillaf, fel arfer naw a deg sillaf sydd yn y llinellau.Mae hyn yn sicrhau bod patrwm pendant a rhythm yn y gerdd

Odl

Mae odl gyson yn y penillion,mae llinellau pob cwpled yn odli ac yn unsill e.e.'saith' a 'gwaith', 'awr' a 'mawr'.Mae'r odl yn creu undod (unity) yn y gerdd ac yn ychwanegu at lif y cwpledi

Goferu

Mae'r goferu'n sicrhau bod y gerdd yn llifo'n esmwyth wrth i'r bardd adrodd am y drychineb a thynnu llun ym meddwl y darllenydd o ba mor ofnadwy yw bywyd i'r bobl yn y wlad hon ers y daeargryn. Mae'r goferu yn creu argraff arnon ni ac yn cyfleu (conveys) pa mor sydyn y newidiodd y wlad ar ôl y digwyddiad. Mae'r cwpledi'n rhedeg i mewn i'w gilydd fel pe bai'r bard yn dweud stori

e.e 'Dewi ap Gwyn.....daeargryn mawr'

Cyflythrennu

Mae'r cyflythrennu'n effeithiol ac yn cyfleu poen, panic ac awyrgylch yn dilyn y ddamwain e.e.

'Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch'

Mae'r gytsain 'g' yn galed ac yn ychwanegu at ddwyster (intensity) y sefyllfa ac yn darlunio'r boen.

Mae'r bardd yn defnyddio'r gytsain galed 'g' i gyflythrennu i greu naws y daeargryn e.e. 'y groes goch'

Ansoddeiriau

Mae'r bardd yn defnyddio llawer o ansoddeiriau syml i ddisgrifio'r sefyllfa yn y wlad e.e 'mawr','cyntaf',' goch', 'ifanc' a 'blêr'.Wrth ddefnyddio ansoddeiriau syml mae'r bardd yn portreadu'r problemau'n rhwydd

Ailadrodd

Mae llawer o ailadrodd yn y gerdd, mae'r gerdd yn agor a chau gan ailadrodd enw'r newyddiadurwr sef ,

'Dewi ap Glyn ar newyddion saith',

Mae hwn yn effeithiol achos bod y bobl sydd wedi dioddef yn ddienw ac mae'n creu undod yn y gerdd.Mae DaG yn ymddangos yn fwy pwysig. Hefyd, mae'n dweud ,

'yn gwneud fy ngwaith' ar ddechrau'r gerdd ac

'wedi gorffen fy ngwaith' ar ddiwedd y gerdd

Mae’r ailadrodd yn dangos mai swydd yw hi i DaG

dydy e ddim yn teimlo dros y bobl sy’n dioddef, dim ond dweud y ffeithiau